| Enw'r Ymgeisydd<br>*Candidate's Name* | Rhif y Ganolfan<br>*Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd<br>*Candidate Number* |
|---|---|---|
| | | 0 |

CBAC WJEC

# TGAU

261/08

## CYMRAEG AIL IAITH (CWRS BYR)
## *WELSH SECOND LANGUAGE (SHORT COURSE)*
## DARLLEN AC YSGRIFENNU/ *READING AND WRITING*
## HAEN UWCH/ *HIGHER TIER*

A.M. DYDD LLUN, 9 Mehefin 2008
*A.M. MONDAY, 9 June 2008*

1 Awr
*1 Hour*

**Arholwr yn unig**

| Rhif y Cwestiwn | Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|
| 1 | | |
| 2 | | |
| 3 | | |
| 4 | | |
| CYFANSWM | | |

**CYFARWYDDIADAU**
***INSTRUCTIONS***

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y bylchau ar ben y dudalen hon.
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*

Atebwch **bob** cwestiwn.
*Answer **all** questions.*

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau a ddarperir yn y papur cwestiynau hwn.
*Write your answers on the lines provided in this question paper.*

**GWYBODAETH**
***INFORMATION***

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

Nodir y marciau a ddyfernir ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau darllen fel a ganlyn: [✓= 2] ac ati.
*Marks awarded for accuracy of expression within the reading questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.*

VP*(S08-261-08)

**1.** Darllenwch yr e-bost yma mae Sarah wedi ysgrifennu at ei hen ddosbarth ar ôl symud i ardal newydd i fyw. Yna gwnewch y tasgau **yn Gymraeg**.
*Read this e-mail that Sarah has sent to her old class after moving to a new area to live. Then complete the tasks **in Welsh**.*

[12 + ✓= 4] = **[16]**

**Oddi wrth:** Sarah **Dyddiad:** 09/06/08

**At:** Pawb yn dosbarth 10P

Hi pawb. Dw i wedi bod yma am ddau fis erbyn hyn. Mae'r ardal yn hyfryd a dw i'n byw ar fferm allan yn y wlad. Mae Mam yn gweithio gartre ar y fferm gyda'r ceffylau. Mae dau ddeg o geffylau gyda ni a dw i'n helpu Mam bob bore cyn mynd i'r ysgol ac ar ôl dod adre, i edrych ar ôl y ceffylau. Mae Dad yn gweithio gyda chwmni ffenestri yn Llanfynydd.
Dw i'n dechrau gwneud ffrindiau newydd yma. Mae fy ffrind Elaine yn fy nosbarth i yn yr ysgol ac rydyn ni'n hoffi mynd i ganŵio ar yr afon, tu ôl i'r fferm, ar ddydd Sadwrn.
Gobeithio bod pawb yn iawn yna – dw i'n colli chi i gyd – mae dau beth dw i ddim yn hoffi am yr ardal newydd - dw i ddim yn gallu chwarae pêl-rwyd yma achos does dim tîm yn yr ysgol. Hefyd mae mynd i'r sinema yn dipyn o broblem achos mae'n rhaid teithio ugain milltir i Lanfynydd i weld ffilm dda.
Diolch byth am y cyfrifiadur ac MSN achos rydw i'n gallu siarad efo fy hen ffrindiau a chael y newyddion i gyd – pwy sy wedi cael cariad newydd a beth rydych chi'n feddwl o'r caneuon newydd yn y siartiau.
Dw i'n cael fy mhenblwydd mis Awst a dw i'n gobeithio cael camera we – wedyn bydda i'n gallu siarad gyda chi i gyd yn y dosbarth a hefyd gweld a siarad â fy nghefnder a fy nghyfnither yn Salamanca.

Pob hwyl a llawer o gariad,

Sarah

Examiner only
*Arholwr yn unig*

(i) Llenwch y grid **yn Gymraeg**.
*Complete the grid **in Welsh**.* **[12]**

| | |
|---|---|
| Wedi symud i'r ardal newydd. Sawl mis? | [1] |
| Ardal newydd. Byw ble? | [1] |
| Gwaith mam Sarah? | [1] |
| Sarah yn helpu ei mam. Pryd? | (i) .................... [1]<br>(ii) .................... [1] |
| Gwneud beth gyda Elaine?<br>Ble?<br>Pryd? | .................... [1]<br>.................... [1] |
| Ddim yn hoffi am yr ardal newydd. | (i) .................... [1]<br>(ii) .................... [1] |
| Yn hoffi MSN. Pam? | [1] |
| Yn gobeithio cael ar ei phenblwydd. | [1] |
| I wneud beth? | [1] |

(ii) Ysgrifennwch **ddau** gwestiwn diddorol, byr, **yn Gymraeg**, hoffech chi ofyn i Sarah. Rhaid i chi ofyn cwestiynau i gael mwy o wybodaeth am bethau mae hi'n sôn amdanyn nhw yn y darn.
Peidiwch â gofyn cwestiynau am bethau rydych chi'n gwybod yr ateb iddyn nhw'n barod.

*Write two **short**, interesting, questions **in Welsh** that you would like to ask Sarah. You must ask questions to obtain more information about things which are mentioned in the interview. Don't ask questions about things that you know the answers to them already.* [✓= 4]

(1) ..........................................................................

..........................................................................

(2) ..........................................................................

..........................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**2.** Ysgrifennwch **yn Gymraeg** am **3** o'r canlynol ar gyfer gwefan eich ysgol chi.
*Write about* **3** *of the following for your school website* ***in Welsh****.* [16]

(i) Fy ardal i – y pethau da a'r pethau drwg. *My area – the good and the bad things.*

(ii) Chwaraeon – gwylio a chwarae – dyma beth dw i'n hoffi gwneud.

*Sport – watching and playing – this is what I like doing.*

(iii) Dyma beth dw i'n casáu a pham. *This is what I hate and why.*

(iv) Penwythnos diwethaf – dyma beth wnes i. *Last weekend - this is what I did.*

**Oddi wrth:** .................................................... **Dyddiad:** ....................................

**At:** ....................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

**TUDALEN WAG**
***BLANK PAGE***

**3.** Darllenwch yr erthygl yma mae Philip wedi'i hysgrifennu ar gyfer ei waith cwrs yn y Chweched Dosbarth. Yna gwnewch y tasgau sy'n dilyn **yn Gymraeg**.
*Read this article that Philip has written for his coursework in the Sixth Form. Then complete the tasks* ***in Welsh****.* [28 + ✓ = 6] **= [34]**

Mae pobl ifanc yn poeni llawer iawn am yr amgylchfyd yn lleol a dros y byd. Maen nhw'n poeni bydd newid yn y tywydd yn ddrwg iawn i'r amgylchedd. Rydyn ni'n gweld effaith y tywydd yn mynd yn fwy cynnes bob dydd ar y teledu achos rydyn ni'n gweld lluniau o'r rhew yn diflannu yn yr Arctig a'r Antarctig. Mae'n anodd helpu yn yr Arctig a'r Antarctig ond mae'n hawdd gwneud rhywbeth i helpu yn ein hardaloedd ni ein hunain.

Rydyn ni'n gallu helpu'r amgylchedd trwy ailgylchu mwy o bethau. Rydyn ni'n gallu gofyn am finiau ailgylchu caniau, gwydr a phapur yn yr ysgol ac ar y strydoedd yn y dref. Oes biniau ailgylchu papur yn eich ystafell ddosbarth chi?

Dylai ysgolion ddefnyddio llai o drydan a nwy hefyd trwy gael paneli solar ar y to a diffodd y golau pan nad oes neb yn yr ystafell ddosbarth.

Peth arall rydw i'n teimlo'n gryf amdano ydy siarad Cymraeg. Rydw i wrth fy modd yn siarad Cymraeg ac mae fy ysgol yn gwneud llawer iawn i fy helpu. Yn y gwersi Cymraeg rydyn ni'n ysgrifennu e-bost i ysgol yng Ngogledd Cymru ac rydyn ni'n mwynhau darllen yr atebion diddorol. Hefyd rydw i'n ysgrifennu colofn newyddion yr ysgol bob mis yn y papur bro - *Clecs y Cwm*. Mae hyn yn dda achos wedyn mae pobl o'r ardal yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen yn yr ysgol ac maen nhw'n dod i mewn i'r ysgol weithiau i siarad Cymraeg â ni. Mae hyn yn help i ni mewn dwy ffordd. Rydyn ni'n gallu clywed pobl eraill, heblaw ein hathrawon, yn siarad Cymraeg ac rydyn ni'n gallu defnyddio ac ymarfer ein Cymraeg gyda nhw.

Yn ddiweddar, rydyn ni wedi cael ychydig o broblemau yn y chweched dosbarth – ffrindiau'n cwympo mas ac yn ffraeo. Y merched ydy'r gwaethaf yn cwympo mas dros gariadon – un wedi dwyn cariad y llall. Wel dydy rhai pethau ddim yn newid beth bynnag!

Examiner only
*Arholwr yn unig*

Atebwch y cwestiynau **yn Gymraeg**.
*Answer the questions **in Welsh**.* **[28]**

1. Pam mae pobl ifanc yn poeni am yr amgylchfyd? [2]

..........

2. Ble, yn y byd, mae Philip yn gweld effaith y tywydd yn mynd yn fwy cynnes?

(i) .......... [2]

(ii) .......... [2]

3. Sut mae Philip yn meddwl y gallwn ni helpu gydag ail gylchu yn ein hardaloedd ni? [4]

..........

..........

4. Mae Philip yn dweud dylai ysgolion ddefnyddio llai o drydan a nwy. Sut?

(i) .......... [2]

(ii) .......... [2]

5. Sut mae ysgol Philip yn ei helpu i ddefnyddio'r Gymraeg?

(i) .......... [3]

(ii) .......... [3]

6. Beth mae pobl yn ardal Philip yn wneud i helpu disgyblion yr ysgol i siarad Cymraeg?

(i) .......... [3]

(ii) .......... [3]

7. Pam mae merched y chweched dosbarth yn cwympo mas a ffraeo? [2]

..........

..........

(ii) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â syniadau Philip yn ei erthygl?
Ysgrifennwch baragraff byr **yn Gymraeg** i ymateb i **ddau** beth sy yn yr erthygl.
*Do you agree or disagree with some of Philip's views in his article?*
*Write a short paragraph **in Welsh** giving your response to **two** things from the article.*
[✓= 6]

..........

..........

..........

..........

..........

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**4.** Ysgrifennwch erthygl **yn Gymraeg** ar gyfer cylchgrawn eich ysgol yn rhoi eich barn am **un** o'r canlynol. Dwedwch os ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno a rhowch resymau ac enghreifftiau i gadarnhau eich safbwynt.
*Write an article **in Welsh** for your school magazine expressing your opinion on **one** of the following. Say whether you agree or disagree with them and give reasons and examples to support your view.*

**[34]**

*(a)* Mae bwlian yn broblem fawr yn yr ysgol ac yn y gymdeithas.
*Bullying is a big problem in schools and in society.*

*(b)* Mae cyfrifiaduron a'r we wedi newid bywydau pobl ifanc yn gyfan gwbl.
*Computers and the internet has changed young people's lives entirely.*

*(c)* Dylai'r Cynghorau Lleol a Llywodraeth y Cynulliad wneud llawer iawn mwy i helpu pobl ifanc.
*Local Councils and the Assembly Government should do a lot more to help young people.*

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................